**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Annwyl Llyr

21 Medi 2021

**Y DU-Japan: Protocol ar Ddiwygio'r Cytundeb ar gyfer Cydweithredu o ran y Defnydd Heddychlon o Ynni Niwclear**

Byddwch yn gwybod mai y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ein cyfarfod ar 13 Medi 2021 gwnaethom ystyried y DU / Japan: Protocol ar Ddiwygio'r Cytundeb ar gyfer Cydweithredu o ran y Defnydd Heddychlon o Ynni Niwclear.

Mae'r cytundeb yn diwygio sut y bydd Cytundeb Cydweithrediad Niwclear y DU-Japan 1998 (NCA) yn gweithredu nawr bod y DU y tu allan i drefn Euratom yr UE, ac i sicrhau bod defnydd heddychlon parhaus o ddeunyddiau a thechnoleg niwclear.

Yn ystod ein hystyriaeth cytunwyd i dynnu'r cytundeb i sylw'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, yn enwedig o ran goblygiadau'r cytundeb, os o gwbl, i ynni niwclear yng Nghymru.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Senedd Cymru
Welsh Parliament